Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

---

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 17 Tachwedd 2020

Pwnc | Subject: **Effaith Covid-19 ar drefniadau dysgu o bell**

Annwyl Kirsty,

Fel rhan o'n gwaith parhaus ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc, rydym wedi edrych yn benodol ar yr effaith y mae'r argyfwng iechyd cyhoeddus yn ei chael ar drefniadau dysgu o bell.

Mae'r effaith ar y cwricwlwm a chymwysterau yn 2020/21 yn sgil colli amser addysgu yn fater sydd wedi ei godi gyda ni dro ar ôl tro. Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn gynharach eleni, yn enwedig eich cyhoeddiad ym mis Gorffennaf 2020 o £29 miliwn i ariannu'r hyn sy'n cyfateb i 600 o athrawon ychwanegol a 300 o gynorthwywyr addysgu i ddarparu cefnogaeth ychwanegol ym mlynyddoedd 11, 12 a 13, a chyda dysgwyr difreintiedig a dysgwyr sy'n agored i niwed o bob oed.

Fodd bynnag, ysgrifennaf i ofyn am sicrwydd bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol fel y bwriadwyd, i greu swyddi addysgu ychwanegol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi manylion imi faint o swyddi newydd sydd wedi'u creu a sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r defnydd o'r arian hwn.

O ystyried pwysigrwydd y wybodaeth hon, a'n gwaith parhaus yn y maes, byddwn yn gwerthfawrogi—os yw'n bosib—pe gallech ymateb cyn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 26 Tachwedd 2020, i lywio ein sesiwn.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565